Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives


GIG CYMRU
NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Beth allai ddigwydd ar ôl i'ch plentyn gael brechlyn






# Am y daflen hon



Rydych chi wedi cael y daflen hon oherwydd bod eich plentyn wedi cael **brechlyn.**



Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy'n helpu i'ch cadw chi'n ddiogel rhag mynd yn sâl.




Mae'r daflen hon yn esbonio’r pethau y gallai eich plentyn eu profi ar ôl cael brechlyn ar gyfer:

- Llid yr ymennydd.
- Rotafeirws.
- MMRV.
- Y ffliw.

# Sgil-effeithiau



**Sgil-effeithiau** yw pethau a allai ddigwydd i'ch plentyn ar ôl iddo gael brechlyn.



Nid yw'r rhan fwyaf o fabanod yn cael sgil-effeithiau.



Gallai eich plentyn fod ychydig yn ofidus ar ôl iddo gael y brechlyn.

Efallai y bydd yn crio/llefain ychydig.




Ni ddylai'r sgil-effeithiau bara am fwy na 1 neu 2 ddiwrnod.



Mae'r sgil-effeithiau cyffredin yn cynnwys braich neu goes goch neu wedi chwyddo yn yr ardal lle cafodd y pigiad.

Neu efallai y bydd lwmp bach.

Mae'r sgil-effeithiau cyffredin eraill y gallai plant hŷn eu profi ar ôl cael brechlyn yn cynnwys:



- Tymheredd uchel sy'n uwch na 38 gradd ar thermomedr.



- Teimlo'n flinedig iawn.



- Poenau yn ei gorff.



- Cur pen/pen tost.



- Dim awydd bwyd.

# Os oes gan eich plentyn dwymyn/gwres ar ôl cael brechlyn



**Twymyn** (gwres) yw pan fydd gennych dymheredd uchel sy’n 38 gradd neu’n uwch ar thermomedr.

Os oes gan eich plentyn unrhyw un o'r pethau canlynol dylech fesur ei dymheredd:



- Mae wyneb eich plentyn yn teimlo'n boeth pan rydych chi'n ei gyffwrdd.



- Bochau coch.



Gallwch roi parasetamol i’ch plentyn os oes ganddo dwymyn neu os nad yw’n teimlo’n dda.



Cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau ar y pecyn.




Mae meddyginiaeth o'r enw aspirin sy'n debyg i barasetamol.

Peidiwch â rhoi aspirin i'ch plentyn. Ni ddylai plant dan 16 oed gymryd aspirin.

## Beth i'w wneud os oes gan eich plentyn dwymyn (gwres):



- Gwneud yn siŵr nad yw eich plentyn yn gwisgo gormod o ddillad.



- Peidio â gorchuddio'ch plentyn â llawer o flancedi.



- Gwneud yn siŵr bod gan eich plentyn ddigon i'w yfed.

  Efallai y bydd angen roi llaeth i fabanod yn amlach.



Peidiwch â gwneud y canlynol:

- Rhoi eich plentyn yn y bath neu ei ymolchi

**neu**



- Chwythu ffan arno.

## Pryd y dylech siarad â meddyg



Ffoniwch eich meddyg ar unwaith os:



- Oes gan eich plentyn dymheredd o 39 gradd neu uwch

**Neu**



- Os yw eich plentyn yn cael ffit neu drawiad.

  Gallai rhywun sy'n cael ffit neu drawiad syrthio i'r llawr a dechrau ysgwyd a siglo ei gorff.




Os yw eich practis meddygon teulu ar gau ac mae eich plentyn yn ddifrifol wael, dylech:




- Ffonio GIG **111** Cymru

**Neu**



- Fynd i'r **Adran Damweiniau ac Achosion Brys** yn yr ysbyty. Neu **A&E** yn fyr yn Saesneg.

# Ar ôl cael y brechlyn Llid yr Ymennydd B




Mae’r brechlyn Llid yr Ymennydd B yn cael ei roi i'ch plentyn trwy 3 phigiad.




Rhoddir y pigiad cyntaf pan fydd y babi yn 8 wythnos oed.




Rhoddir yr ail bigiad i'r babi yn 12 wythnos oed.




Rhoddir y trydydd pigiad i'r babi pan fydd yn 1 oed.




Pan fydd eich plentyn wedi cael y 3 phigiad bydd wedi’i amddiffyn gan y brechlyn.



Mae llawer o fabanod yn cael twymyn (gwres) ar ôl cael y pigiad cyntaf a’r ail bigiad.



Mae'n syniad da rhoi parasetamol iddynt ar ôl iddynt gael y pigiad.



Bydd hyn yn helpu i'w hatal rhag cael twymyn neu wneud iddynt deimlo ychydig yn well os ydyn nhw'n cael twymyn.



**Dos** yw faint o feddyginiaeth rydych chi'n ei roi i blentyn.

1 dos o barasetamol yw 2.5ml. Gallwch fesur y dos gan ddefnyddio chwistrell neu lwy feddyginiaeth.



Pan fydd eich baban yn cael y pigiad 1af a'r 2il bigiad dylech roi:

- 1 dos o barasetamol iddo yn syth ar ôl iddo gael y brechlyn.
- 2il ddos 4 i 6 awr ar ôl y dos 1af.
- 3ydd dos 4 i 6 awr ar ôl yr 2il ddos.



Siaradwch â'ch meddyg os yw eich baban yn fach iawn neu os gafodd ei eni'n gynnar.

Bydd yn dweud wrthych y dos cywir o barasetamol i'w roi i'ch plentyn.



Mae eich plentyn yn llai tebygol o gael twymyn ar ôl y 3ydd pigiad.

Nid oes angen i chi roi parasetamol iddo oni bai ei fod yn teimlo'n sâl.

# Ar ôl cael y brechlyn rotafeirws



Efallai y bydd eich baban ychydig yn ofidus ar ôl iddo gael y brechlyn rotafeirws.



Mae rhai babanod hefyd yn gwneud pŵ yn aml neu'n cael pŵ mwy rhydd neu feddal.




## Sgil-effeithiau anghyffredin

Mae **anghyffredin** yn golygu nad yw'n digwydd i lawer o bobl.



Efallai y bydd gan rai babanod boen bol neu chwydu ar ôl iddynt gael y brechlyn.




Efallai bydd pŵ eich baban yn edrych ychydig fel jeli coch.

Mae hyn fel arfer yn digwydd o fewn 7 diwrnod o gael y brechlyn.



Os bydd hyn yn digwydd, neu os ydych chi'n poeni, dylech chi:



- Ffonio eich meddyg ar unwaith.



- Ffonio GIG **111** Cymru.



- Fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn yr ysbyty. Neu A&E yn fyr yn Saesneg.

# Ar ôl cael y brechlyn rhag y frech goch, clwy'r pennau, rwbela a brech yr ieir

Gelwir y brechlyn hwn yn **MMRV** yn fyr.




Efallai na fydd holl sgil-effeithiau'r brechlyn **MMRV** yn digwydd ar yr un pryd.

Efallai y bydd eich plentyn yn profi’r sgil-effeithiau hyn ar ôl 6 i 10 diwrnod:




- Brech.



- Tymheredd uchel sy’n uwch na 38 gradd ar thermomedr.



- Dim awydd bwyd.




Ar ôl tua 2 i 3 wythnos mae rhai plant yn gallu cael:



- Lympiau yn eu gwddf

**a**



- Thymheredd uchel sy’n uwch na 38 gradd ar thermomedr.



Efallai y bydd eich plentyn yn cael brech hyd at 6 wythnos ar ôl iddo gael y brechlyn.

Mae hyn yn anghyffredin.
Nid yw'n digwydd i lawer iawn o blant.

## Ar ôl cael y brechlyn ffliw



Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael y brechlyn ffliw fel chwistrell i fyny eu trwyn.

Gelwir hyn yn **chwistrell trwyn**.



Ar ôl cael y chwistrell trwyn, efallai y bydd trwyn eich plentyn yn rhedeg neu’n teimlo’n llawn am ychydig ddyddiau.

Efallai y bydd eich plentyn hefyd:



- Yn teimlo'n sâl gydag ychydig o dwymyn (gwres).



- Yn cael pen tost/cur pen.



- Dim awydd bwyd.



Nid yw sgil-effeithiau ar ôl cael y chwistrell trwyn yn para'n hir iawn.

Dydyn nhw ddim fel arfer yn gwneud i blant deimlo’n sâl iawn.

# Alergeddau




Efallai y bydd gan rai plant alergedd i frechlyn.

Mae adwaith alergaidd fel arfer yn dechrau ychydig funudau ar ôl cael y brechlyn.



Efallai y bydd eich plentyn yn ei chael hi'n anodd anadlu neu efallai y bydd hefyd yn syrthio i'r llawr.



Mae cael adwaith alergaidd yn beth anghyffredin iawn.
Nid oes gan lawer o blant alergedd.



Bydd y nyrs sy’n rhoi'r brechlyn i’ch plentyn wedi cael hyfforddiant arbennig.

Bydd yn gwybod beth i'w wneud ar unwaith os bydd gan eich plentyn alergedd i'r brechlyn.

# Rhagor o wybodaeth



Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am y brechlyn rydych chi’n gallu siarad a’ch meddyg.



Rydych chi’n gallu ffonio GIG 111 Cymru hefyd.

**Ffonio 111**

Mae'n rhad ac am ddim i ffonio'r rhif hwn.




Rydych chi’n gallu edrych ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

**icc.gig.cymru/brechlynnau**




Ewch i’r wefan hon i gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth chi:

**111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth**

© Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2025
ISBN 978-1-83766-542-6

Easy Read UK